**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**12 Gorffennaf**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y 4ydd Cynulliad

## Rhagymadrodd

1. Ar 22 Mehefin, cymeradwyodd y Cynulliad gynigion i sefydlu ei system o bwyllgorau.

2. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i holl feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth fod yn agored ar gyfer gwaith craffu o dan system bwyllgorau'r Cynulliad. Gan hynny, ni ddylai maes cyfrifoldeb yr un Gweinidog fod y tu allan i gyrraedd o leiaf un o bwyllgorau'r Cynulliad i gael ei archwilio. Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu caniatáu ar gyfer archwiliadau trawsbynciol yn holl feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth. Felly, er bod yr adroddiad hwn yn nodi'r prif bwyllgor ym mhob un o feysydd bras cyfrifoldebau'r Gweinidogion, mae pob pwyllgor yn rhydd i ystyried unrhyw fater o'u safbwynt penodol nhw.

3. Gellir crynhoi rolau craidd system bwyllgorau'r Cynulliad fel a ganlyn:

- craffu ar Filiau ac ar gynigion deddfwriaethol eraill y Cynulliad, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, gan gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad gydag argymhellion ynghylch gwella'r rhain, ac ystyried a gwneud gwelliannau i Filiau;

- edrych ar gyllid a pherfformiad rhannau perthnasol o Lywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus perthynol a chyrff eraill sy'n berthnasol i Gymru; ac

- ystyried a chyflwyno adroddiadau ar weithredu polisïau, deddfau ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys nodi a chraffu ar feysydd polisi presennol neu newydd Llywodraeth Cymru, neu feysydd lle mae'r polisi presennol yn ddiffygiol, a gwneud cynigion ar gyfer gwelliannau.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cylchoedd gorchwyl y gwahanol bwyllgorau'n fanylach.

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

5. Rôl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yw ystyried y materion gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth yn eu cylch gorchwyl. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y gweinidogion sy'n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Hawliau a hawlogaethau plant a phobl ifanc<br>Tlodi plant<br>Gofal cymdeithasol i blant<br>Iechyd plant<br>Gwasanaethau mabwysiadu a maethu<br>Chwarae<br>Rhieni a theuluoedd<br>Gofal plant<br>Comisiynydd Plant Cymru<br>Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)<br>Amddiffyn plant<br>Ysgolion, gan gynnwys safonau addysgu, cwricwlwm, llywodraethiant ac effeithiolrwydd<br>Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>Anghenion dysgu ychwanegol<br>Cynhwysiant mewn ysgolion<br>Presenoldeb ac ymddygiad plant<br>Addysg y blynyddoedd cynnar<br>Dysgu 14-19<br>Gwaith ieuenctid<br>Materion polisi perthnasol yr UE |

## Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

6. Rôl Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yw ystyried y materion gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth yn eu cylch gorchwyl. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y gweinidogion sy’n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor wedi’u rhestru isod.

| |
|---|
| Amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd |
| Adnoddau, rheolaeth ac ansawdd dŵr (gan gynnwys yr amgylchedd morol) |
| Bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a chadwraeth natur |
| Y Parciau Cenedlaethol |
| Cefn gwlad a mannau agored |
| Coedwigaeth |
| Rheoli gwastraff |
| Y polisi egni a thlodi tanwydd (gan gynnwys dur a glo) |
| Iechyd a lles anifeiliaid |
| Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu |
| Newid yn yr hinsawdd |
| Datblygu cynaliadwy |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7. Rôl y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw ystyried y materion gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth yn eu cylch gorchwyl. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y gweinidogion sy’n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor wedi’u rhestru isod.

| |
|---|
| Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| Gofal cymdeithasol |
| Gwasanaethau iechyd meddwl |
| Iechyd y cyhoedd a diogelu iechyd |
| Gwella iechyd |
| Gofalwyr |
| Gweithgareddau’r awdurdodau lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol |
| Rheoleiddio lleoliadau preswyl, lleoliadau mewn cartrefi a lleoliadau i oedolion |
| Cynorthwyon, addasiadau a chymorth yn y cartref |

| |
|---|
| Byw yn annibynnol<br>Gofal yn y gymuned<br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Diogelwch bwyd<br>Ymchwilio a datblygu mewn iechyd a gofal cymdeithasol<br>Gwasanaeth iechyd y gwasanaeth carchardai<br>Materion polisi perthnasol yr UE |

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

8. Rôl y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yw ystyried y materion gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth yn eu cylch gorchwyl. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y gweinidogion sy'n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Tai a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thai<br>Digartrefedd a chyngor ar dai<br>Tai fforddiadwy (gan gynnwys eu hansawdd)<br>Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Gwella'r gwasanaethau cyhoeddus<br>Cyfle cyfartal<br>Trais domestig<br>Lloches, mewnfudo a gweithwyr mudol<br>Cydlynedd cymunedau<br>Diogelwch cymunedau<br>Sipsiwn a theithwyr<br>Diwylliant<br>Y Gymraeg<br>Treftadaeth Cymru a'r amgylchedd hanesyddol ac adeiladau<br>Amgueddfeydd, llyfrgelloedd cyhoeddus ac archifau<br>Y celfyddydau<br>Twristiaeth<br>Chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden weithredol<br>Gwasanaethau Tân ac Achub<br>Argyfyngau Sifil<br>Darlledu<br>Materion polisi perthnasol yr UE |

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

9. Rôl y Pwyllgor Menter a Busnes yw ystyried y materion gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth yn eu cylch gorchwyl. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y gweinidogion sy'n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Busnes a menter, gan gynnwys buddsoddi o'r tu allan / allforio<br>Ymchwilio, datblygu ac arloesi<br>Addysg uwch<br>Technoleg a gwyddoniaeth<br>Adfywio strategol, adfywio ffisegol ac adfywio'r gwaddol<br>Cyflogaeth<br>Datblygu'r gweithlu<br>Sgiliau<br>Cymwysterau galwedigaethol<br>NEETS<br>Dysgu cymunedol i oedolion a dysgu yn y gwaith<br>Cyflogadwyedd a chyngor gyrfaoedd<br>Diwygio lles<br>Seilwaith TGCh<br>Cludiant<br>Menter gymdeithasol<br>Rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE<br>Materion polisi perthnasol yr UE |

**Y Pwyllgor Cyllid**

10. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut mae Comisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru'n defnyddio adnoddau ac yn benodol cyflwyno adroddiadau yn ystod cylch y gyllideb flynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

11. O ran archwilio goblygiadau ariannol Biliau, mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn y dylai'r Pwyllgor ddewis a dethol, gan hoelio sylw ar graffu ar y Biliau sydd â'r arwyddocâd ariannol mwyaf, a chymryd trosolwg strategol ar faterion ariannol sy'n ymwneud â deddfwriaeth.

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

12. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch cyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ynghylch darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynglŷn â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol, cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr y swydd honno.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

13. Rôl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yw cyflawni swyddogaethau penodol y pwyllgor cyfrifol yn Rheol Sefydlog 21 ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu ynglŷn â'r cymhwysedd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys ystyried offerynnau statudol, offerynnau statudol drafft, unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a gyflwynir gerbron y Cynulliad, Biliau'r Cynulliad a'r Deyrnas Unedig yn ogystal â chylch gorchwyl ehangach i ystyried goblygiadau deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer sybsidiaredd a materion cyfansoddiadol eraill. Yn benodol, mae gan y Pwyllgor drosolwg hefyd ar swyddogaethau Prif Weinidog Cymru fel y mae'r rheiny'n ymwneud â materion cyfansoddiadol neu faterion cyffredinol y llywodraeth.

## Y Pwyllgor Deisebau

14. Rôl y Pwyllgor Deisebau yw pwyso a mesur yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Mae swyddogaethau penodol y Pwyllgor wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

## Y Pwyllgor Safonau

15. Rôl y Pwyllgor Safonau yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwilio i gwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad Aelodau, sefydlu'r gweithdrefnau at ymchwilio i gwynion a'r trefniadau ar gyfer y Gofrestr o Fuddiannau'r

Aelodau a chofnodion cyhoeddus eraill a bennir gan y Rheolau Sefydlog.

**Materion Ewropeaidd ac Allanol**

16. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i brif-ffrydio materion polisi Ewropeaidd ar draws y pwyllgorau yn hytrach na chael un pwyllgor dynodedig. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fydd yn gyfrifol am wiriadau i fonitro sybsidiaredd yn ogystal ag ystyried unrhyw fater deddfwriaethol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu ynglŷn â'r cymhwysedd hwnnw.

**Adolygu**

17. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i adolygu sut mae'r system bwyllgorau'n gweithio yn 2012. Fel rhan o'r adolygiad, bydd yn ystyried effaith y penderfyniad i brif-ffrydio materion Ewropeaidd.

**Rôl cadeiryddion y pwyllgorau**

18. Mae cadeiryddion y pwyllgorau'n chwarae rhan hanfodol i wireddu amcanion strategol y Cynulliad. O gofio hynny, a'r ffaith bod pob Cadeirydd yn cael ei ethol gan y Cynulliad cyfan, rydyn ni o'r farn ei bod yn briodol nodi'n fanylach y rôl y mae'n rhaid i gadeiryddion y pwyllgorau ei chyflawni ar ran y Cynulliad.

19. Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau yw:

- pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod yna flaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;

- codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i'r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;

- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;

- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau,

polisïau a chyllid; cadw trefn;  a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;

- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor ac adeiladau consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;
- adeiladu'r cymysgedd o ddiwylliant a medrau yn y pwyllgor sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;
- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, yr wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;
- rhoi hwb i gyflawni pob agwedd ar waith y pwyllgor gyda chyflymder ac ansawdd;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a
- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesed yn ei waith er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd, ei ymgysylltiad cyhoeddus a'i effaith.